

## AHOI ACW! DIGWYDDIAD YN Y RHYL I GREU CYNNWRF




**MAE actau sydd wedi achosi cynnwrf ledled y wlad i ddod i'r Rhyll.**

Stryd fawr y dref fydd yr olygfa ar gyfer diwrnod o hwyl ar thema'r môr, fel rhan o ddigwyddiad Gŵyl Fai Maer Cyngor Tref y Rhyll.

Bydd yn cynnwys cerddwyr ystudfachau anferth yn patrolio'r traeth, pysgotwyr comedi, gemau traddodiadol glan y môr a reid sydd wedi ei galw yr arafaf ar y ddaear.

Hefyd, bydd cerddoriaeth, peintio wyneb, crefftau wedi eu hysbrydoli gan y traeth, syrffiwr arbennig a gweithgaredd swigod anferth.

Digwyddiad Gŵyl Fai'r Maer yw'r ail ddigwyddiad i'w gynnal yn y dref ac mae'n cyfeirio at gysylltiadau glan y môr y Rhyll.



-2-

Y digwyddiad hwn gan y cyngor tref yw'r olaf i Faer y Rhyl, y Cynghorydd Win Mullen-James, y mae ei blwyddyn yn y swydd yn dod i ben yn ddiweddarach ym mis Mai.

Meddai'r Cynghorydd Mullen-James: "Unwaith eto, bydd digwyddiad Gŵyl Fai'r Maer yn dod ag actau a phrofiadau newydd i'r dref. I rai, megis y ddau sy'n patrolio'r traeth a'r pysgotwyr, dyma'r tro cyntaf iddyn nhw ymweld â'r Rhyl. Mae gan y digwyddiad rywbeth i bob oedran a bydd y rhai iau yn medru gwneud dalwyr haul sglefrod môr i fynd adref gyda nhw.

"Mae Gŵyl Fai'r Maer yn un o uchafbwyntiau rhaglen ddigwyddiadau'r cyngor tref ac mae'r holl weithgareddau yn rhad ac am ddim. Rydym yn gobeithio y bydd pawb sy'n ymuno â ni yn cael amser gwych."

Bydd y reid arafaf ar y ddaear - y Lifeboat ac wedi ei gwneud o hamogau – yn dychwelyd i'r Rhyl. Ers ei ymweliad cyntaf yn 2017, mae degau o filoedd o bobl o bob cwr o'r wlad wedi eistedd i lawr ac ymlacio ar y reid.

"Roedd y Lifeboat yn llwyddiant mawr y tro diwethaf iddo ymweld, roedd pobl wrth eu boddau gyda'r profiad. Rydym yn falch o'i groesawu yn ôl i'r Rhyl fel bod trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd yn cael rhoi cynnig arno, rhai ohonynt am y tro cyntaf," ychwanegodd y Cynghorydd Mullen-James.

Cynhelir Gŵyl Fai'r Maer ar Stryd Fawr y Rhyl ar ddydd Sadwrn 4 Mai rhwng 11am a 4pm.

Diwedd

